



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

1 Rhagfyr 2022

MAE'R Ffordd YR YDYCH CHI'N RHENTU YN NEWID

Dyma beth mae angen i rentwyr ei wybod...



Bydd contractau newydd a symlach yn cael eu cyflwyno

Gelwir tenantiaid a thrwyddedeion yn 'ddeiliaid contract' o dan y gyfraith newydd, a byddan nhw'n cael 'contract meddiannu' yn lle'r cytundeb tenantiaeth neu drwydded presennol



Mae'n rhaid i'ch cartref fod yn ffit i fyw ynddo

Mae'n rhaid i'ch landlord osod larwm tân, synhwyrdd carbon monocsid, a chynnal profion diogelwch trydanol rheolaidd



Mwy o rybudd o gynnydd i'r rhent

Bydd y cyfnod rhybudd i gynyddu rhent yn dyblu o un mis i ddau.



Hawliau cryfach i aros yn eich cartref

Bydd contractau newydd a gyflwynir ar ôl 1 Rhagfyr yn destun rhybudd o chwe mis neu fwy, os nad chi sydd ar fai ac mae'ch landlord yn dymuno adfeddu'r eiddo (a elwir yn 'troi allan heb fai' yn aml). Hefyd, ni chaiff eich landlord gyflwyno rhybudd o chwe mis hyd nes i chi fod wedi byw yn yr eiddo am chwe mis. Mae hyn yn golygu y byddwch yn sicr o fod â hawl meddiannaeth o flwyddyn o leiaf.



Atal troi allan er mwyn dial

Ni all eich landlord ofyn i chi adael dim ond oherwydd eich bod wedi cwyno bod cyflwr eich cartref yn wael (er enghraifft, mae'ch boeler wedi torri). Cyfeirir at hyn weithiau fel 'troi allan er mwyn dial'



Gellir ychwanegu neu ddileu deiliaid contract

yn haws o'r contract. Mae hyn yn golygu os bydd cyd-ddeiliad yn gadael y contract, na fydd perygl y byddwch yn ddigartref.



Mwy o hawliau i drosglwyddo'ch cartref os byddwch yn marw

Mae'r 'hawliau olynu' hyn yn cynnwys eich partner neu blant sy'n oedolion os byddan nhw'n byw gyda chi.



Ewch i llyw.cymru/rhentucartrefi

Gweithio gyda'n gilydd

i roi cartref diogel i bawb